# Cyngor Cymuned Llanfihangel  y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 8fed Ionawr 2018 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Cadeirydd Eleri Puw, Is Gadeirydd Elwyn Evans, H.E. Thompson,  Gareth Evans,
Wendy Whitby, Robert Jones,  Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Steve Lewis, (gwraig yn yr ysbyty)
Datgan Diddordeb:  Neb
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd .  Adroddodd bod y Cyng. Clare Crowley wedi rhoi ei ymddiswyddiad mewn.

1. Derbyniwyd  cofnodion  Rhagfyr a  llofnodwyd  gan y Cadeirydd
2. Cae Chwarae: Cyfeiriwyd bod y cae ar ei orau ond bod angen torri mieri yn ol.
3. Mynwentydd:  Dim
4. Llwybrau: Dim
5. Cyng Gwynedd: Adroddodd bod llawer yn cwyno am y gor ddwr ar y ffyrdd.  Parthed trafod efo Mark Mortimer, nid oedd llwyddiant i ni gael sylw i ddifa llygod yn y pentref.  Rhaid i unigolyn ddanfon cwyn fewn, ac yna talu am sylw.  Diolch Cyng. Lawton.
6. Ciosg – nodwyd nad oedd Minffordd yn gweithio.
7. Trafodwyd llythyr goryrru yn y pentref.  Pasiwyd i ddanfon gair at  Arfon Jones Comisiynwr yr Heddlu.
8. Golau ger Minffordd: Trafodwyd a phenderfynnu gael rhagor o wybodaeth.
9. Pasiwyd i dalu yr Archwiliad Allanol.
10. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd llythyr yn gaddo rhoi sylw i oleuadau Bronygader, gordyfiant ger Ty Bont, twll ger Pontygarth, dwr o gwmpas Tynybryn a Tynyffordd, tacluso rhuban ger Penygarreg.
11. HMRevenue: derbyniwyd llythyr yn dweud bod newidiadau.
12. Praesept: Yr oedd y Clerc wedi paratoi adroddiad taliadau 2017 - 18 a chostau 2018 – 19.  Trafodwyd y ffigyrau yn fanwl a phasiwyd i gadw y costau yr un fath a llynnedd £10,755.00 Cynnig gan Cyng R Jones, eilio Cyng G Evans.  Pawb arall yn cytuno.
13. Cwrs Côd Ymddygiad:  Yr oedd Cyngor Gwynedd yn gaddo cwrs yn y Gwanwyn.
14. Taliad: Swyddfa Archwilio Cymru:  archwiliad allanol  £230.25  siec 000918

Mari Jones

1. Pasiwyd i dalu Jones & Jones am y gwaith dros y misoedd diwethaf / siec 000003 am £120.00

Cyfarfod Nesaf:  Nos Lun 12fed Chwefror 2018 am 7 o'r gloch.